O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2022 Rhif 920 (Cy. 201)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Y Bala, Gwynedd) (Gwahardd Cerbydau a Therfyn Cyflymder 40 MYA Dros Dro) 2022

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *26 Awst 2022* |
| *Yn dod i rym* | *4 Medi 2022* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o gefnffordd yr A494, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a chyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd bod Triathlon y Bala yn cael ei gynnal ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 16A o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Y Bala, Gwynedd) (Gwahardd Cerbydau a Therfyn Cyflymder 40 MYA Dros Dro) 2022 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 4 Medi 2022.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(i) unrhyw gerbyd gwasanaeth cyhoeddus;

(ii) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys;

(**1**) 1984 p. 27. Mewnosodwyd adran 16A gan adran 1(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd (Digwyddiadau Arbennig) 1994. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 27), mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(iii) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â gwaith ar y ffordd neu oleuadau neu arwyddion traffig neu waith brys i unrhyw garthffos neu i unrhyw brif bibell neu gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan, neu gyfarpar telathrebu yn y darn o’r ffordd o dan sylw, neu mewn unrhyw dir cyfagos;

(iv) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio gan un neu ragor o swyddogion awdurdodedig i gefnogi Triathlon y Bala ac am resymau diogelwch y digwyddiad hwnnw;

(v) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu’r llu awyr ac sy’n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy’n aelod o’r lluoedd arbennig—

(a) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy’n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(b) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “y cyfnod cau” (“*closure period*”) yw’r cyfnod hwnnw sy’n dechrau am 08:00 o’r gloch ar 4 Medi 2022 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A494 Dolgellau i Fan i’r De o Benbedw;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw’r unedau hynny o’r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

### Gwaharddiad

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod y cyfnod cau, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i’r Gorchymyn hwn.

### Cyfyngiad

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod y cyfnod cau, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt fel y’i pennir yn erthygl 2 (ii) a 2(v), yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i’r Gorchymyn hwn.

**Atal dros dro**

**5.** Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy’n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo’r cyfyngiadau a bennir yn erthygl 4 yn weithredol.

**Cymhwyso**

**6.** Nid yw’r gwaharddiad yn erthygl 3 a’r cyfyngiad yn erthygl 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn**

**7.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 1 ddiwrnod ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, wrth weithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 26 Awst 2022

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

## YR ATODLENNI

### ATODLEN 1
### Gwahardd Cerbydau Dros Dro

Y darn o gefnffordd yr A494 sy’n ymestyn o bwynt 12 o fetrau i’r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â’r ffordd sy’n arwain at Ganolfan Hamdden Penllyn, y Bala, tua’r de-orllewin hyd at bwynt 6 o fetrau i’r gogledd-ddwyrain o’i chyffordd â’r ffordd Dosbarth 3 sy’n arwain at Ryd-y-main ger Ysgol Ieuan Gwynedd. Sicrheir bod cerddwyr yn cael mynd i fangreoedd.

### ATODLEN 2
### Terfyn cyflymder 40 mya dros dro

Y darn o gefnffordd yr A494 sy’n ymestyn o bwynt 198 o fetrau i’r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â’r A4212, am bellter o 500 metr.